# COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

## BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET

## 21 MEDI 2023

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: S Harris ac A Llewelyn

**Swyddogion yn Bresennol:**

A Jarrett, C Howard, C Griffiths, A O'Donnell, N Jones, P Chivers ac A Thomas

**Swyddfa Archwilio Cymru:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Harris yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023//24**

   Nodwyd y Flaenraglen Waith

## 6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd

## 7. STRATEGAETH PERTHNASOEDD IACH AR GYFER CYMUNEDAU CRYFACH

Bod cynnwys a chyhoeddiad y Strategaeth Perthnasoedd Iachach ar gyfer Cymunedau Cryfach derfynol yn cael eu cymeradwyo.

## 8. COMISIYNU GWASANAETHAU GOFAL A CHYMORTH AR GYFER TRI CHYNLLUN BYW Â CHYMORTH

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, ac ar yr amod bod Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf yn cael y caniatâd cynllunio perthnasol i symud ymlaen gydag adeiladu'r llety (fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd)

a) Cymeradwyo ymgymryd ag ymarfer caffael i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl sy'n byw yn y Cynlluniau Byw â Chymorth.

b) Yn dilyn y broses gaffael, rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, mewn cydweithrediad â'r aelod/au cabinet perthnasol, ymrwymo i gontract gyda'r ymgeisydd llwyddiannus er mwyn darparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw yn y Cynlluniau Byw â Chymorth.

## 9. DIRPRWYAETH O DAN DDEDDFWRIAETH LLYWODRAETH LEOL I GYNGOR TREF LLANSAWEL YNGHYLCH DARPARU GWASANAETH DYDD

a) Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith sgrinio integredig, bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn rhoi dirprwyaeth o un flwyddyn i Gyngor Tref Llansawel yn unol ag adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i weithredu gwasanaeth prydau cymunedol yn Neuadd Liberty, Llansawel, yn unol â Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 a Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.

b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ymrwymo i gytundeb addas i ddogfennu'r ddirprwyaeth hon.

## 10. PLANT A PHOBL IFANC, GWASANAETHAU OEDOLION A THAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL, CHWARTER 1AF (EBRILL 2023 - MEHEFIN 2023) ADRODDIAD PERFFORMIAD

Nodi'r adroddiad.

## 11. EITEMAU BRYS

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

## 13. ACHOS BUSNES AR GYFER SEFYDLU GWASANAETH LLEOLI OEDOLION MEWN TEULUOEDD MEWNOL

Rhoi caniatâd i Swyddogion:

a) Gynnal ymarfer ymgynghori 30 niwrnod.

b) Trafod dyddiad terfynu contract gyda'r darparwr presennol i gwmpasu'r amserlen o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol.

c) Recriwtio tîm mewnol gyda'r nod o ehangu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Lleoli Oedolion mewn Teuluoedd ac archwilio grwpiau cleientiaid ac anghenion cefnogi gwahanol.

d) Rhoi system bandio taliadau ar waith.

e) Defnyddio'r offeryn proffilio i asesu cleientiaid presennol a newydd.

f) Ar ôl cytuno, cyflwyno cyfraddau newydd fesul cam i gyfuniadau cleient/gwesteiwr presennol dros gyfnod o ddwy flynedd, ond eu rhoi ar waith yn syth ar gyfer unrhyw gyfuniadau newydd.

## 14. DARPARU, CYNNAL A CHADW A THYNNU GOSODIADAU TECHNOLEG GYNORTHWYOL YN FEWNOL

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig:

a) Cymeradwyo'r cynnig i wasanaethau ddarparu, cynnal a chadw a thynnu gosodiadau yn fewnol gan Wasanaeth Technoleg Gynorthwyol.

b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion gyflwyno hysbysiad o derfyniad i 'Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin' a dod â'r contract Technoleg Gynorthwyol i ben.

c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol hwyluso unrhyw drosglwyddiad TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu

Cyflogaeth) a all fod yn berthnasol rhwng Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

## 15. **<u>ADRODDIAD ARCHWILIO RHIF 13 - CARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE.</u>**

Nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**